**Cofnodion cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth, Hydref 20fed 2015 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Mark Young (cadeirydd), Rob Parkes (is gadeirydd), Gaynor Morgan Rees, Margaret Bowe, Medwyn Williams, Philip Stevens a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Shereen Devine.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1 Datgan Diddordeb Personol:** Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

**2. Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Fedi'r 14eg 2015.**

**3. Materion yn codi:** Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**4. Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio

(1) 1, The Paddock, Stryd y Parc - adeiladu garej newydd.
(2) 12, Lôn Howell - codi estyniad i ochr yr adeilad.
(3) Maes Parcio aml lawr, Lôn Barker, Dinbych - torri lawr coeden ewcalyptws.
(4) Clwb Golff Dinbych - codi adeilad allanol un llawr i'w ddefnyddio ar gyfer gwersi golff rhyngweithiol.

**5. Materion Cynllunio eraill:**

(1) CSDd - ymgynghoriad brîff safle datblygu - Llanelwy, Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol - egni adnewyddadwy. Nodwyd y ddau. Cytunwyd i beidio â mynegi sylw ar y briff safle datblygu Llanelwy. Ynglŷn â'r cyfarwyddyd cynllunio atodol cytunwyd fod yr aelodau angen mwy o amser i ystyried y ddogfen ac i'r mater penodol yma gael ei ohirio tan gyfarfod llawn y cyngor ar Hydref 26ain.

(2) SP Energy Networks - Hysbysiad o Dan Reoliad 7 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffael Gorfodol) 2010 - Gorchymyn Cysylltiad Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru (Cyfeirnod Yr Arolygaeth Cynllunio EN020014) - Hysbysiad o Ddarpariaeth at Gyfer Pwerau Cais Gorfodol o Safbwynt Tir Ychwanegol. (Derbyniwyd dau hysbysiad o'r un fath). Cytunwyd i gydnabod derbyn y ddau hysbysiad ac i ymateb drwy ddweud, er mwyn y gymuned yn gyffredinol mae opsiwn dewisol y cyngor tref fyddai i'r ceblau pŵer gael eu gosod tan ddaear.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7 o'r gloch.

Arwyddwyd:..........................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:...........................................